## Bill Linnard a'r

# Hen Effemera mewn Corneli Tywyll

Gall effemera megis labeli a mân hysbysebion fod yn dystiolaeth bwysig, ond fel rheol maent yn diflannu yn weddol gyflym. Serch hynny, weithiau goroesa rhai effemera printiedig mewn corneli tywyll neu leoedd dirgel, a hoffwn drafod rhai enghreifftiau o'r maes horolegol yng Nghymru.


Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gwerthwyd watshis poced di-rif yng Nghymru gyda phapurau watshis *(watch-case papers)* ynddynt, h.y. darn bach crwn o bapur printiedig a roddwyd tu mewn i gefn y casyn, fel hysbyseb y gwneuthurwr neu werthwr y watsh. Ceir casgliad go helaeth o bapurau watshis o bob rhan o Gymru yn yr Amgueddfa Werin, Sain Ffagan.

Yn anffodus, ni ddefnyddiwyd papurau tebyg ar gyfer y clociau cas hir a werthwyd wrth eu miloedd yng Nghymru yn ystod y ddeunawfed ganrif a'r ganrif ganlynol. Enw gwneuthurwr y cloc a welir ar y deial wrth gwrs, ond cynhyrchid y casyn pren ar gyfer y cloc gan rywun arall – y saer lleol fel arfer, ac fel rheol ni wyddys enwau'r seiri hyn.

Eithriad prin i'r rheol hon oedd John Lloyd, saer a weithiai yn Llanfihangel-yng-Ngwynfa yn ail hanner y ddeunawfed ganrif. Cynhyrchai John Lloyd y casys pren ar gyfer clociau gan wneuthurwyr adnabyddus megis Samuel Roberts (Llanfair Caereinion) a'r teulu Bullock *(Ellesmere)*. Glynai John Lloyd label ysgrifenedig ar du mewn cas y cloc, gyda manylion megis rhif y casyn a'r dyddiad, er enghraifft: 'John Lloyd Llanvihangel did Make No. 32 anno: 1773 November'.

Dim ond yn achlysurol iawn y gwelir cerdyn masnach *(trade card)* printiedig tu mewn i gasyn cloc yn hysbysebu enw'r saer gwreiddiol. Unwaith gwelais label printiedig wedi'i lynu y tu mewn i gloc Gwyddelig i hysbysebu'r ffaith mai gwaith saer adnabyddus yn Nulyn oedd y casyn hardd. Hefyd rwyf wedi gweld dau gloc Cymreig gyda hen gerdyn masnach tu mewn y casyn, ond cardiau seiri dodrefn o Fryste oeddynt. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cynhyrchid llawer o gasys ar gyfer clociau de Cymru gan seiri arbennig ym Mryste.

Ceir cardiau masnach ar gyfer gwneuthurwyr clociau yng Nghymru hefyd. Enghraifft ddiddorol yw cerdyn pum iaith o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg *(gw. Llun 1)*. Ar ei gerdyn ymffrostia Weichert y siaredir Eidaleg, Ffrangeg, Almaeneg a Groeg yn ei siop




Llun 1: Cerdyn masnach pum iaith gan Weichert, Caerdydd.

clociau yn Bute Street, Caerdydd, yn ogystal â Saesneg wrth gwrs. Dim sôn am Gymraeg ar y cerdyn hwn.

Ond fel arfer, yr unig beth a welir ar gefn drws cloc cas hir (os rhywbeth o gwbl) yw darn bach o bapur mewn ysgrifen y perchennog, yn cofnodi pris y cloc.

Sut bynnag, yn ddiweddar gwnes ddarganfyddiad diddorol tu hwnt mewn casyn pren hen gloc Cymreig. Cloc wyth niwrnod gan Benjamin Rice, Castell Nedd, ydoedd. Ganwyd Rice yn 1757, bu farw yn 1813 ac ym mynwent Llanilltud Nedd y mae ei weddillion. Yn y casyn yr oedd dalen brintiedig, sef hen gerdd grefyddol, dan y teitl *Myfyrdod ar y Cloc yn Taro* gan Azariah Shadrach (1774-1844). Roedd y perchennog anhysbys wedi glynu'r gerdd hon yn y casyn dros ganrif a hanner yn ôl.

Ganwyd Azariah Shadrach yng Ngharndeifo-fach, Sir Benfro. Bardd a phregethwr adnabyddus ydoedd, a chyhoeddodd nifer o lyfrau – myfyrdodau, homiliau a cherddi crefyddol, rhai ohonynt yn boblogaidd iawn yn eu dydd. Cyhoeddwyd adargraffiadau ohonynt hefyd, naill ai taflenni (h.y. cerddi unigol) neu gasgliadau (h.y. blodeugerddi) yn ystod bywyd yr awdur ac hefyd ar ôl iddo farw. Adargraffwyd y gerdd arbennig hon, sef *Myfyrdod ar y Cloc yn Taro*, sawl gwaith fel taflen, e.e. yn Llanrwst, Caernarfon,




Llun 2: Rhan o wyneb-ddalen Myfyrdod ar y Cloc yn Taro gan Azariah Shadrach.

Abertawe ac Ystalyfera, ym mhob achos heb ddyddiad. Fersiwn y daflen a gyhoeddwyd yn 'Abertawy' a geir yma yn y cloc o Gastell Nedd (gw. Llun 2).

Yn y gerdd, disgrifia pob pennill gyfeiriad addas o'r Beibl ar gyfer pob awr rhwng un a deuddeg o'r gloch, sef 1 – un Duw; 2 – y Ddau Destament; 3 – y Drindod; 4 – y Pedwar Efengylwr; 5 – y pum morwyn ffôl; 6 – y chwe diwrnod ar gyfer gwaith; 7 – y Saboth; 8 – yr wyth enaid a achubwyd o'r Dilyw yn yr arch; 9 – y naw awr y bu Iesu ar y Groes; 10 – y Deg Gorchymyn; 11 – yr hen bechadur a ddaeth i'r winllan ar yr unfed awr ar ddeg; 12 – y Deuddeg Apostol.

O ran cynnwys a dull, felly, mae hen fyfyrdod Shadrach ar y cloc yn taro yn ein hatgoffa ni am *'Deck of Cards'*, sef y gân gan yr Americanwr Wink Martindale a ddaeth yn boblogaidd yn y 1960au.

Yn ogystal, cyhoeddodd Azariah Shadrach esboniad hir a manwl ar gyfer *Myfyrdod ar y Cloc yn Taro* mewn llyfryn dan y teitl *Allwedd Myfyrdod; neu Arweinydd i'r Meddwl Segur: lle y cynhwysir dwy-ar-bymtheg o benodau* (Caerfyrddin 1809, tt.36; argraffiadau eraill 1813, 1920, 1829 a 1849).

Fel rheol, wrth gwrs, nid oes unrhyw ddarn o bapur neu gerdyn yn y casyn sy'n taflu goleuni ar hanes hen gloc, ond byddai'n braf clywed gan ddarllenwyr llygad-barcud *Y Casglwr* am fanylion unrhyw effemera, megis labeli neu gardiau masnach seiri Cymreig. Os gwelwch yn dda, ffoniwch yr awdur ar 029 20 843200.